

Perchennog/Meddiannydd

«A1»

«A2»

«A3»

«A4»

«A5»

**Fy Nghyf/My Ref: P256/AMC**

**Dyddiad/Date: 18 Hydref 2021**

Annwyl Syr/Fadam,

Yn ddiweddar, ymgynghorodd y Cyngor â thrigolion ar gynigion arfaethedig i wella diogelwch ar y ffordd yn Y Groes-faen trwy osod croesfan pâl i gerddwyr ar yr A4119 a chyfyngiadau aros, ynghyd â diwygiadau i gyffordd Y Parc a'r A4119 er mwyn gwella gwelededd gyrrwyr wrth iddyn nhw adael Y Parc.

Mae manylion y ddau gynllun arfaethedig i'w gweld yn y lluniau P256-00-85-01 a P256-00-85-02 sydd wedi'u cynnwys. Mae modd eu gweld hefyd ar ein gwefan: [www.rctcbc.gov.uk/traffig](http://www.rctcbc.gov.uk/traffig).

Cafodd 219 o lythyron eu hanfon a daeth 58 o ymatebion i law. Ymatebodd 55 o blaid y groesfan gyda 28 yn cynnwys sylwadau ychwanegol. Daeth 3 gwrthwynebiad i law.

Er bod llawer o'r sylwadau y tu allan i gylch gwaith y cynllun, dylid nodi hefyd fod rhai ymatebwyr yn cwestiynu lleoliad y groesfan, er eu bod nhw o'i phlaid hi, gan fynegi barn gyffredinol i'w symud ymhellach i'r dwyrain.

Wrth gyflwyno croesfan, mae'r Cyngor yn cyfeirio at Nodyn Trafnidiaeth Leol 2/95 sy'n darparu canllawiau clir ar osod croesfannau i gerddwyr.

Mae Nodyn Trafnidiaeth Leol 2/95 yn cynnwys lleiafswm gwelededd clir i'r groesfan, ac er mwyn cwrdd â'r gofyniad hwn nid yw bob amser yn bosibl lleoli croesfan mewn lleoliad sy'n well gan drigolion. Byddai symud y groesfan ymhellach i'r dwyrain yn lleihau'r pellter gwelededd clir nes ei fod yn is na'r isafswm sy'n ofynnol. Fyddai hyn ddim yn fuddiol i ddiogelwch ar y ffordd. Felly does dim cynnig i ail-leoli'r groesfan.

**Gwasanaethau Rheng-flaen**

Ffôn/Tel: 01443 425001

**Frontline Services**

Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU  
Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU

**Roger Waters BSc CEng MICE**

Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Rheng-flaen | Director – Frontline Services

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog. We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



**MAE EICH DATA O BWYS** [www.rctcbc.gov.uk/diogeludata](http://www.rctcbc.gov.uk/diogeludata)  
**YOUR DATA MATTERS** [www.rctcbc.gov.uk/dataprotection](http://www.rctcbc.gov.uk/dataprotection)



Mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gynnwys er gwybodaeth i chi.

Y cam nesaf yn y broses fydd rhoi cyfnod o hysbysiad cyhoeddus o'r cynigion, lle byddwn ni'n hysbysebu manylion y cynigion. Dyma gyfle i'r cyhoedd wneud unrhyw sylwadau sydd ganddyn nhw, a hynny mewn dull ffurfiol. Hoffech chi gyflwyno sylwadau am y cynllun? Anfonwch nhw ar bapur erbyn 8<sup>th</sup> Tachwedd 2021, at sylw Rheolwr y Gwasanaethau Traffig, Uned Materion Rheoli Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd, CF37 1DU neu mewn neges e-bost i **[gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk](mailto:gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk)**.

Yn gywir,



Andrew McGowan  
Uwch Beiriannydd, Materion Rheoli Traffig  
Senior Engineer, Traffic Management